Cynllun Datblygu: Crynodeb

Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg
Cryfderau: Mae gan yr ysgol ethos ofalgar a chynhwysol ● Mae'r dysgwyr yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion ● Mae'r dysgwyr ymfalchïo yn yr ysgol ac yn falch o fod yn rhan o'i chymuned ● Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu tuag at fywyd ysgol drwy amrywiaeth o bwyllgorau ● Mae gan y dysgwyr ymwybyddiaeth dda o hawliau plant y Cenhedloedd Unedig ● Mae athrawon yn ennyn diddordeb y dysgwyr drwy ddefnyddio dull greadigol ac arloesol o gynllunio'r cwricwlwm ● Mae'r profiadau dysgu yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn drawsgwricwlaidd ac mewn modd integredig ● Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o bob un dysgwr ac maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn ddychmygus i herio pob grŵp o ddysgwyr ● Ceir perthynas broffesiynol gref iawn rhwng y dysgwyr a'r staff ● Mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol ● Mae gweledigaeth glir yn ei lle sy'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ● Ceir diwylliant o ymholi a datblygu ar draws yr ysgol gyda'r staff yn myfyrio yn rheolaidd ar eu haddysgeg ● Mae gan yr ysgol ffocws gryf ar ddatblygiad proffesiynol staff ● Mae sgiliau digidol disgyblion yn cael eu datblygu'n dda, ac mae disgyblion yn defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol ar draws pob maes o'u dysgu. ● Mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu

TEMPLATE

Meysydd i'w datblygu:

Cryfhau medrau darllen, dealltwriaeth ddarllen a mwynhad darllen pob dysgwr

Meithrin diwylliant cynhwysol lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn perthyn ac yn cyrraedd eu llawn potensial.

Gwella medrau mathemateg disgyblion er mwyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn hyderus mewn cyd-destunau

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025 /2026	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Cynyddu y cyfleoedd a ddatblygu sgiliau Llafaredd ar draws y Cwricwlwm	Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol a chynaliadwy tuag at wireddu'r flaenoriaeth hon. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod dull systematig, clir a chyson o addysgu llefaredd gan ddefnyddio strategaethau Llais 21 a Prosiectau llafar ar draws Cam Cynnydd 2 a 3, wedi'i gefnogi gan adnoddau a rannwyd mewn hyfforddiant staff. O ganlyniad mae hyn wedi arwain at welliant yn ansawdd y ddarpariaeth ac yn y dilyniant o fedrau ar draws grwpiau blwyddyn.
Sicrhau cyfleoedd ehangach i ddatblygu Lles a lechyd disgyblion a'i wreiddio yn ein Cwricwlwm	Yn gyffredinol mae'r gweithgareddau wedi cyfrannu at gryfhau diwylliant iechyd a lles yr ysgol, datblygu gallu staff, gwella trefniadau pontio a chynyddu'r gefnogaeth emosiynol sydd ar gael i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adeiladu darpariaeth fwy cydlynol sy'n cefnogi lles, cynnydd a llwyddiant pob dysgwr
Sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu sgiliau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.	Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf a phwrpasol wrth ddatblygu datblygu sgiliau cymhwyso ar draws y MDaPh. Mae arweinwyr wedi sicrhau ffocws clir ar gryfhau dealltwriaeth staff o gynnig cyfleoedd drwy hyfforddiant Liz Tiliman, ac wedi cyflwyno strategaethau ac adnoddau effeithiol i gefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn annibynnol e.e. Dysgwyr MaTH

TEMPLATE

	wedi cydweithio gydag ysgolion Clips i ddadansoddi data presenoldeb. O ganlyniad i'r cydweithio, mae ein dysgwyr MaTh wedi cael eu herio gyda'u sgiliau dadansoddi data go iawn yn cael eu hymestyn. Mae tystiolaeth o graffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a llais y disgybl yn dangos bod cyfleoedd pwrpasol i gymhwyso medrau. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod briodol o strategaethau. Mae hyn wedi cryfhau cysondeb ac effeithiolrwydd i gymhwyso sgiliau rhifedd.
Sicrhau cyfleoedd ehangach i ddatblygu chwilfrydedd ein dysgwyr yn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.	Yn gyffredinol mae'r flaenoriaeth yma wedi cryfhau medrau ymchwilio, creadigrwydd, datrys problemau a chydweithio disgyblion, wrth ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng dysgu yn y dosbarth a chyd-destunau bywyd go iawn. Mae tystiolaeth drwy luniau, craffu ar lyfrau, llais y disgybl yn dangos lefelau uwch o ymgysylltiad, hyder a brwdfrydedd ymhlith disgyblion, ynghyd â mwy o gysondeb mewn darpariaeth ac arferion staff ar draws yr ysgol.
Cydlynnu a datblygu prosesau gwerthuso'r ysgol ymhellach gan gryfhau llais rhanddeiliaid yr ysgol.	Yn gyffredinol, mae'r flaenoriaeth hyn wedi cyfrannu at gryfhau cyfathrebu â rhanddeiliaid, ymestyn cyfranogiad disgyblion mewn arweinyddiaeth ysgol, datblygu arferion addysgu effeithiol a sicrhau bod staff yn chwarae rhan ganolog wrth lunio cyfeiriad strategol yr ysgol. O ganlyniad, mae diwylliant cydweithredol a chynhwysol o welliant parhaus wedi'i gryfhau ar draws yr ysgol.

TEMPLATE

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2026 /2027		
Blaenoriaeth	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
1. Cryfhau medrau darllen, dealltwriaeth ddarllen a mwynhad darllen pob dysgwr drwy ddatblygu darpariaeth gynhwysfawr, gyson a blaengar sy'n cefnogi cynnydd	• Mae'r ysgol wedi gweithredu Cynllun Uwch Fedrau Darllen ysgol gyfan gyda disgwyliadau clir ar gyfer pob blwyddyn. • Mae pob aelod o staff yn dangos dealltwriaeth gyson o gynnydd mewn darllen a strategaethau darllen effeithiol. • Mae cyfleoedd cynlluniedig i ddatblygu darllen a dealltwriaeth ddarllen wedi'u hymgorffori ym mhob dosbarth. • Mae Cynllun ffoneg Monster Phonics wedi sefydlu ym Mlwyddyn 3 a 4	• Clwstwr wedi broceri cefnogaeth allanol ar gyfer datblygu asesiad. • Arweinwyr yn mynychu sesiynau rhwydwaith priodol i rannu arfer.
Cerrig Milltir Rhagfyr Cyflwyno gweithgareddau ac adnoddau sy'n datblygu uwchfedrau darllen yn ystod HMS mis Medi i'r Staff Gyfan Staff i gynllunio ar y cyd, weithgareddau yn seiledig ar lyfr o'u dewis gan ddefnyddio cynllun Clwstwr Darllen Staff yn mabwysiadu a defnyddio strategaethau a gweithgareddau uwchfedrau darllen yn gyson ar draws yr ysgol gyda thestunau priodol	**Cerrig Milltir Mawrth** Defnyddio asesiadau cychwynnol a thymhorol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i anghenion penodol dysgwyr. Sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'r medrau a ddatblygir yn y sesiynau i'w darllen a'u hysgrifennu bob dydd. Defnyddio data cynnydd i werthuso effaith y rhaglen a chynllunio camau nesaf.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Monitro dealltwriaeth disgyblion yn ystod sesiynau "Darllen da'n Gilydd" (Ailystyried Darllen) - sut mae nhw'n ymateb/trafod/darllen Cynnal teithiau dysgu a chraffu ar waith yn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau darllen Defnyddio llais y dysgwr i asesu dealltwriaeth, hyder a mwynhad darllen. Dadansoddi data a thystiolaeth yn rheolaidd mewn cyfarfodydd cynnydd disgyblion i nodi cryfderau, anghenion a chamau nesaf. Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth

DRAFT

		asesu i addasu cynlluniau a darpariaeth ddarllen.
2. Meithrin diwylliant cynhwysol lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn perthyn ac yn cyrraedd eu llawn potensial.	• Mae bron pob dysgwr yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn perthyn i gymuned yr ysgol. • Mae cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau dysgu, cyfoethogi ac arweinyddiaeth yn uchel, gyda grwpiau o ddysgwyr yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd. • Mae llais y disgybl yn dylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau ysgol gyfan, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu rhoi enghreifftiau clir o'r effaith hon. • Mae arsylwadau dysgu a gweithgareddau sicrhau ansawdd yn dangos arferion cynhwysol cyson ar draws yr ysgol.	Hyfforddiant IQM
Cerrig Milltir Rhagfyr Cynnal archwiliad sylfaenol o ddarpariaeth gynhwysol yr ysgol yn erbyn fframwaith IQM er mwyn adnabod cryfderau a blaenoriaethau datblygu. Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu IQM sy'n canolbwyntio ar gryfhau diwylliant, polisïau ac arferion cynhwysol ar draws yr ysgol. Casglu tystiolaeth systematig o effaith gwaith cynhwysiant drwy fonitro llais y disgybl, llais rhieni,	**Cerrig Milltir Mawrth** Sicrhau bod llais pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, yn cael ei gynrychioli. Defnyddio data Traciwr er mwyn targedu grwpiau gwahanol o ddysgwyr Holiaduron disgyblion ar gynhwysiant. Dadansoddi data er mwyn lliwio y dysgu. Cynllunio,datblygu a chreu Gardd Noddfa sy'n gynhwysol , llesol ac yn addas ar gyfer pawb.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Galluogi disgyblion i ddeall a gwneud cysylltiadau rhwng gweithgareddau ysgol a'u lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r pum elfen lles a'u gallu i adnabod sut y gall gweithredoedd a phrofiadau dyddiol gyfrannu'n gadarnhaol at eu lles cyffredinol.

TEMPLATE

darpariaeth ADY, cynnydd dysgwyr a gweithgareddau sicrhau ansawdd. Ymgysylltu â'r broses asesu allanol a sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer ennill yr Achrediad IQM. Defnyddio argymhellion yr asesydd allanol i lywio gwelliant parhaus a datblygu arferion cynhwysol ymhellach.		Monitro cynlluniau gwaith i sicrhau fod amrywiaeth yn parhau i fod yn ran annatod o gwricwlwm yr ysgol ac yn plethu'n naturiol.
3. Gwella medrau mathemateg disgyblion er mwyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn hyderus mewn cyd-destunau amrywiol	Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol o'u mannau cychwyn. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig neu'n rhagori arno mewn mathemateg, yn seiliedig ar ddata asesu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwell cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio rhif, algebra, mesur, siâp a data sy'n briodol i'w cam cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis ac yn defnyddio strategaethau mathemategol effeithiol yn annibynnol wrth ddatrys problemau cynyddol gymhleth.	Arweinwyr CSC Mathemateg a Rhifedd. HMS Mewnol gan staff.
Cerrig Milltir Rhagfyr Awdit staff o sut mae pob blwyddyn yn defnyddio rhaglen Big Maths. Adolygu a mireinio'r cynllun mathemateg Big Maths i sicrhau dilyniant clir o ran gwybodaeth, sgiliau a chysyniadau mathemategol fel rhan o gyfarfodydd HMS er mwyn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu dysgu mewn tasgau rhesymu a datrys	**Cerrig Milltir Mawrth** Defnyddio asesiadau Big Maths Wythnosol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhlith disgyblion. Monitro cynnydd disgyblion yn dymhorol a thargedu ymyriadau lle bo angen.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** **Hyrwyddo strategaethau sy'n galluogi disgyblion i egluro a chyfiawnhau eu dulliau a'u hatebion mewn sesiynau Big maths a gwersi Mathemateg.** **Datblygu annibyniaeth a gwydnwch mathemategol wrth ymdrin â heriau**

TEMPLATE

problemau mewn diwrnodau datrys wythnosol.		
4. Datblygu capasiti arwain ar draws yr ysgol er mwyn grymuso pob aelod o staff i gyfrannu'n effeithiol at welliant parhaus a chodi safonau dysgwyr	Mae pob aelod o staff yn arwain neu'n cyfrannu'n weithredol at brosiect gwella ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio tystiolaeth yn effeithiol i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae ansawdd monitro, gwerthuso ac adborth yn gyson uchel ar draws yr ysgol. Mae mwy o staff yn dangos hyder wrth arwain mentrau a rhannu arferion effeithiol. Mae effaith gweithgareddau arwain yn weladwy mewn safonau dysgwyr, ansawdd y ddarpariaeth a lles.	Dysgu proffesiynol i'r holl staff a chefnogaeth estynedig
Cerrig Milltir Rhagfyr Staff yn ymwybodol o Flanoriaethau yr Ysgol 26/27 a sut mae nhw yn cyfrannu at cyflawni. Grwpiau Meysydd a phrofiad yn llunio CDM wedi ei osod ar monitro ac asesu y flwyddyn flaenorol o'r pwnc. Cynllun newydd yn nodi agweddau i'w datblygu a unigolion i'w harwain fydd yn bwydo mewn i'r CDY.	**Cerrig Milltir Mawrth** Sefydlu triawdau wedi sefydlu ar ddatblygu agwedd o'r CDY ar draws y CC. Amserlen i'r triawdau ymchwilio, datblygu a mireninio strategaeth ac arwain arno gyda chyfle i gyflwyno i'r staff gyfan Cyfleoedd i staff arsylwi ar eu gilydd ar draws y CC.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Staff yn cael cyfleodd i fonitro ac asesu gwaith eu gilydd drwy deithiau cerdded a sesiynau craffu cyflym. Staff yn arwain cyfarfodydd HMS ar ganfyddiadau a rhannu arfer dda. Staff wedi ymrwyno i gyrsiau e.e. PSQM Cyfarfodydd Cynnydd - Staff yn cael cyfle i graffu ar

TEMPLATE

		ddata gyda arweinwyr a llunio ffordd ymalen i ddisgyblion a grwpiau penodol megis PYDd a ADY.

TEMPLATE